Cyngor Bro Llanfairpwllgwyngyll
Cofnodion Cyfarfod 24 Tachwedd 2015

Presennol: A. Jones (Cadeirydd), J. Roberts, A. Mummery, H. Huws, G. Parry, Meirion Jones, E. Parry, D. James, G. C. Jones, D. Williams, A. Williams,
Dafydd Owen (clerc)

1. Ymddiheuriadau: B. Jones, Mervyn Jones, Stephen Edwards, J. Evans (Cynghorwr Sirol)

2.Datganiadau Diddordeb.
Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau diddordeb

3. Cyfrifon mis Tachwedd 2015
3.1 Cytunwyd i ohirio derbyn y cyfrifon tan Fis Rhagfyr 2015 oherwydd camgymeriad yn y wybodaeth.

4. Materion y Cyngor Sir
4.1 A. Mummery yn nodi fod cyfarfod agored wedi'i drefnu gydag Arweinydd y Cyngor Sir Ieuan Williams i drafod cyllideb 2016/17. Meirion Jones yn nodi fod y gyllideb wedi'i gyhoeddi yn Nhachwedd a rŵan allan i ymgynghoriad a bod y wybodaeth i'w gael ar wefan y Cyngor Sir.
4.2 A. Mummery a Meirion Jones yn nodi bod adolygiad wedi bod i ymateb y Gwasanaeth Tan wedi i'r achos yng nghaffi Dwylan yn Llangefni. Nodwyd fod y Cyngor Sir wedi derbyn y rhesymau am yr amser a gymerodd i gyrraedd y tan yn yr achos hwn a'u bod wedi cyrraedd o fewn yr amser targedol. Mae'r gwasanaeth am barhau i edrych ar ei dulliau wedi'r digwyddiad i sicrhau fod y gwasanaeth gorau yn cael ei gynnig.

5. Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod 27 Hydref 2015
5.1 J. Roberts yn cynnig, D. James yn eilio. Derbyniwyd fel y rhai cywir.

6. Materion yn codi
6.1 Twr Marcwis - Cyngor Bro heb dderbyn diweddariad pellach. Clerc i ymholi Pat Owen os yw'r arolygon wedi'i wneud
6.2 Plac ar dy Kyffin Williams -Clerc i holi cwmnïau am amcan brisiau ar gyfer placiau.
6.3 Grid Cenedlaethol - H. Huws yn nodi fod cyfarfod cyhoeddus i'w gynnal yng Nghanolfan Ysgeifiog yng Ngaerwen ar 4/12/15 i drafod y peilonau. A. Maer yn nodi fod y Cyngor Sir wedi cyfarfod i drafod ymateb swyddogol y Cyngor Sir.
6.4 Bwrdd Iechyd - A. Mummery a A. Jones wedi ymweld y safle gyda swyddog newydd y Bwrdd Iechyd Mr Wyn Thomas ac mae o wedi cynnig awgrymiad o ymestyn y Maes Parcio, ond angen trafod gyda'i uwch-swyddogion.
6.5 Llwybr beicio - Cyngor Sir am drefnu i adnewyddu'r marciau seiclo, ac wedi gofyn i North Wales Highways ail-wneud y droedffordd wrth yr a55
6.6 Maes Aml Bwrpas - Hysbyseb wedi bod ym Mhapur Menai ond dim ymateb wedi'i dderbyn.
6.7 To fflat y Neuadd Goffa - A. Jones yn nodi fod y to dal yn gollwng dŵr glaw i mewn yn y gegin.
6.8 Ymgyrch y Neuadd Goffa - Dim diweddariad wedi derbyn gan Gerallt Llewelyn o Fenter Môn. H. Huws yn nodi fod grant Heritage Lottery ar gael ar gyfer ymgyrchon sy'n gysylltiedig â'r rhyfel byd cyntaf.

7. Cyflwyno a chadarnhau cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Meysydd Chwarae 10 Tachwedd 2015
7.1 A. Williams yn cynnig, G. Parry yn eilio. Derbyniwyd fel y rhai cywir

8. Materion yn codi o'r cofnodion
8.1 Difrod i lawr y siglenni - Andre Le Cras am ymweld â'r safle a rhoi amcan bris am y gwaith.
8.2 Meinciau Cof - Cytunwyd y dylai y Cyngor Bro rhoi ystyriaeth i unrhyw gais a fyddai'n cael ei dderbyn.

9. Cyflwyno a chadarnhau cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Neuadd Goffa 10 Tachwedd 2015
9.1 A. Mummery yn cynnig, J. Roberts yn eilio. Derbyniwyd fel y rhai cywir.

10. Materion yn codi o'r cofnodion
10.1 Cyflenwad Trydan - Cytunwyd i barhau talu hefo siec am gyflenwad y Clwb Snwcer a direct debit am y Neuadd

11. Cyflwyno a chadarnhau cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Amgylchedd ac Eiddo 17 Tachwedd 2015
11.1 A. Jones yn cynnig, G. Parry yn eilio. Derbyniwyd fel y rhai cywir

12. Materion yn codi o'r cofnodion
12.1 Trefniadau Nadolig - Nodwyd fod Andre am gwblhau creu'r bocs concrit i ddal y goeden. Archeb wedi'i gwneud am goeden a goleuadau ac yn disgwyl eu danfon. G. Parry wedi siarad gyda. J. Clarke ac mae am helpu gyda'r trefniadau. A. Williams yn cynnig, G. C. Jones yn eilio, cytunwyd i wneud casgliad ar y noson tuag at ward y Plant a ward Alaw yn Ysbyty Gwynedd i'w rannu 50/50.

13. Ceisiadau Cynllunio
13.1 39C561/FR Cais llawn ar gyfer codi Canolfan Zorb ynghyd a chreu mynedfa i gerbydau a maes parcio ar dir wrth The Lodge, Ffordd Caergybi. - Nodwyd fod angen cwestiynu pa fuddiant fydd yno i'r ardal leol a hefyd pa effaith y bydd y cais yn i gal ar y golygfeydd dros y Fenai ac o'r AHNE.

14. Gohebiaeth
14.1 Llythyr - Urdd Gobaith Cymru - Ei rhoi i'r Pwyllgor Cyllid
14.2 Llythyr - Ambiwlans Awyr Cymru - Derbyn y wybodaeth
14.3 Cyngor Sir Ynys Môn - Arolwg Llety i ymwelwyr Ynys Môn 2015 - Derbyn y wybodaeth
14.4 Llythyr Cadwch Cymru'n Daclus - Ei rhoi i'r Pwyllgor Cyllid
14.5 Llythyr - Groes Goch - Ei rhoi i'r Pwyllgor Cyllid
14.6 Llythyr Cyngor ar Bopeth - Derbyn y wybodaeth
14.7 Llythyr - CSYM - Ymgynghoriad Gwasanaethau Ieuenctid - Derbyn y wybodaeth
14.8 Llythyr - CSYM - Pobl sy'n cysgu allan: cyfrif 2015 - Clerc i gwblhau a dychwelyd y ffurflen
14.9 Cylchgrawn - Clerks & Council's Direct - Derbyn y wybodaeth
14.10 Cylchgrawn - Dan do Môn - Derbyn y wybodaeth
14.11 Llythyr - Eisteddfod Genedlaethol Môn - Ei rhoi i'r Pwyllgor Cyllid
14.12 CSYM - Penderfyniadau Cynllunio - Derbyn y wybodaeth

Dyddiad Cyfarfod Nesaf - Nos Fawrth 15 Rhagfyr 2015 am 7.00yh yn y Neuadd Goffa

Arwyddwyd…… (Cadeirydd) ……Dyddiad **97**